Archwilio Cymru
Audit Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Cyngorhau Cymuned yng Nghymru

Drwy ebost

**Cyfeirnod:** Hysbysiad Archwilio 2022

**Dyddiad cyhoeddi:** 30 Mai 2022

Annwyl Syr/Madam

# Archwilio Cyfrifon 2023

Mae'r llythyr hwn yn cynnwys gwybodaeth bwysig ar gyfer yr archwiliad allanol statudol. Mae'n cynnwys hysbysiad archwilio ac esboniad o'r hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud yn awr. Mae'n bwysig i chi ddarllen y cynnwys yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn darparu'r holl wybodaeth ofynnol i'ch archwilydd mewn pryd. Os bydd rhaid inni ofyn am y wybodaeth hon eto yn ystod yr archwiliad, efallai y bydd y Cyngor yn achosi ffioedd archwilio ychwanegol. Mae **Atodiad 1** yn nodi'r camau nesaf y mae angen i chi eu cymryd ar gyfer yr archwiliad.

## Penodi dyddiad ar gyfer arfer hawliau etholwyr i ofyn cwestiynau a mynegi gwrthwynebiad yn ystod archwiliad

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi penodi **dydd Llun, 11 Medi 2022**, fel y dyddiad y caiff etholwyr arfer eu hawliau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Fodd bynnag, byddwn yn cwblhau ein gwaith archwilio cyn y dyddiad hwn os gallwn.

Rydym hefyd yn amgáu copi o ffurflen flynyddol 2022 i chi ei llenwi a'i dychwelyd i ni. Anfonwyd y Ffurflen Flynyddol atoch hefyd ar 29 Mawrth a 28 Ebrill. Sylwch ar y canlynol, os gwelwch yn dda:

- rhaid i'r ffurflen flynyddol gael ei hardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol a'i chymeradwyo gan y Cyngor, erbyn 30 Mehefin 2022. Os na ellwch wneud hynny, rhaid i chi gyhoeddi hysbysiad ar eich gwefan a'ch hysbysfwrdd yn egluro pam. Ceir hysbysiad enghreifftiol yn **Atodiad 3**. Bydd methu â gwneud hynny yn arwain at farn archwilio amodol.

- anfonwch eich ffurflen flynyddol atom wedi'i chwblhau a'i chymeradwyo, ynghyd â'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani, erbyn 5 Gorffennaf fan bellaf. Dylid cyflwyno'r ffurflen flynyddol a'r wybodaeth ategol cyn gynted â phosibl ac ni ddylech aros tan y dyddiad a nodir uchod. Bydd hyn yn ein helpu i reoli ein llwyth gwaith cyffredinol. Fodd bynnag, ni fyddwn yn gallu cyhoeddi ein barn

archwilio tan ar ôl 11 Medi 2023. Rydym yn rhagweld y byddwn yn cyhoeddi barn archwilio o 18 Medi ymlaen.

## Amserlen i'r cyhoedd gael arolygu'r cyfrifon

Rhaid i bob cyngor sicrhau bod ei gyfrifon a'i ddogfennau ategol ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd. Mae hwn yn faes lle rydym yn derbyn llawer o gwynion ynglŷn â chynghorau tref a chymuned. Mae delio â'r cwynion hyn yn ychwanegu at gost yr archwiliad. Felly, rydym yn argymell bod cynghorau'n dilyn yr amserlen a nodir isod:

- eu bod erbyn **18 Mehefin 2023 yn cyhoeddi'r hysbysiad archwilio amgaeedig** ar hysbysfwrdd yn yr ardal **AC** ar wefan y Cyngor am 14 diwrnod calendr o leiaf; ac

- ar ôl y 14 diwrnod calendr y cyfeirir atynt uchod, yn gwneud trefniadau priodol i'r **cyhoedd archwilio'r** cyfrifon a'r dogfennau ategol **am gyfanswm o 20 diwrnod gwaith o 3 Gorffennaf tan 28 Gorffennaf 2023**.

Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon fod ar gael i'w harchwilio ar rybudd rhesymol yn ystod y cyfnod archwilio. Os bydd trefniadau'r cyngor yn eithrio unrhyw ddiwrnodau gwaith (o ddydd Llun i ddydd Gwener ac eithrio gwyliau banc), yna rhaid ymestyn y cyfnod archwilio yn briodol. Mae'r dyddiadau a nodir uchod yn caniatáu i gynghorau sy'n rhwym i'r dull archwilio newydd sicrhau bod eu cofnodion ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd cyn darparu'r un dogfennau i'w harchwilio.

Os dymunwch ddefnyddio dyddiadau eraill ar gyfer yr hysbyseb a'r arolygiad, gallwch osod dyddiadau eraill ar gyfer y cyfnod arolygu cyn belled â bod y cyfnod arolygu o 20 diwrnod wedi'i gwblhau erbyn 8 Medi 2023 fan bellaf. Fodd bynnag, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y trefniadau a wnewch yn cydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. **Ni fydd** Archwilio Cymru yn trafod dyddiadau eraill gyda chynghorau.

Dylai cynghorau nodi y gallant gyhoeddi'r hysbysiad archwilio cyn cymeradwyo eu datganiadau blynyddol ond rhaid i'r cyfnod arolygu cyhoeddus ddilyn y dyddiad cymeradwyo.

## Archwiliadau cyn y flwyddyn eithriadol

Rydym yn gweithio ein ffordd drwy ein hôl-groniad o archwiliadau blwyddyn flaenorol.

Mae'n rhaid i chi gwblhau, cymeradwyo ac anfon ffurflen 2023 atom, hyd yn oed os nad yw archwiliadau blynyddoedd cynharach hawedi'u cwblhau eto.  Byddwn yn cau'r blynyddoedd cynharach ochr yn ochr ag archwiliad 2022-23.

## Trefniadau archwilio a gofynion gwybodaeth

Y llynedd (2021-22), fe wnaethom gyflwyno ein trefniant archwilio newydd lle mae gan bob cyngor archwiliad llawn bob tair blynedd. Bydd cynghorau felly'n destun naill ai:

- archwiliad sylfaenol
- archwiliad llawn tair blynedd

Tynnir eich sylw at y papur sydd ynghlwm wrth yr e-bost eglurhaol sy'n nodi pryd y bydd pob cyngor yn ddarostyngedig i'r trefniadau newydd. Trefnir y papur yn ôl ardal awdurdod unedol. Dylech wirio'r amserlen hon i weld a ydych yn destun archwiliad llawn eleni.

Mae Atodiad 2 yn nodi'r wybodaeth y mae angen i chi ei darparu i ni eleni.

## Newidiadau mewn clercod

Os nad chi yw clerc y corff mwyach, rhowch wybod i ni ar unwaith, os gwelwch yn dda. Gallwch ysgrifennu atom yn archwiliadcyngorcymunedol@archwilio.cymru.

Yn gywir

Deryck Evans

Deryck Evans

Rheolwr

Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Atodiad 1 – Y camau nesaf

## Cwblhau'r ffurflen flynyddol

Dylech lenwi'r ffurflen flynyddol yn llawn cyn gynted â phosibl a sicrhau bod eich archwilydd mewnol wedi cwblhau ei waith cyn i'r ffurflen flynyddol gael ei chymeradwyo. Bydd y Canllaw i Ymarferwyr (Llywodraethu ac Atebolrwydd i gynghorau lleol yng Nghymru) yn gymorth i chi gwblhau'r ffurflen flynyddol.

Yna, rhaid i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol ardystio'r ffurflen flynyddol erbyn 30 Mehefin a rhaid i'r corff gymeradwyo'r ffurflen flynyddol hefyd erbyn 30 Mehefin. Ni chaiff y corff ddirprwyo'r gymeradwyaeth hon i bwyllgor.

**30 Mehefin yw'r dyddiad olaf y cewch gymeradwyo'r ffurflen flynyddol. Dylech geisio llenwi'r ffurflen flynyddol yn gynt os gellwch.**

**Os na allwch gwblhau'r ffurflen flynyddol cyn y dyddiad hwn mae darpariaeth yn y Rheoliadau ar gyfer hyn. Bydd angen i chi gyhoeddi'r hysbysiad priodol fel y nodir yn Atodiad 3. Bydd angen i chi hefyd sicrhau eich bod yn cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau wrth hysbysebu'r archwiliad.**

## Anfon y ffurflen flynyddol at yr archwilydd

Unwaith y bydd y ffurflen flynyddol wedi cael ei chymeradwyo, dylech ei hanfon yn syth, ynghyd â'r dogfennau eraill a nodir ar **tuddalen 7** y llythyr hwn, at eich archwilydd yn:

Archwiliadau Cynghorau Cymuned

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd

CF10 4BZ

Sylwch ein bod wedi symud swyddfeydd. Peidiwch ag anfon eich datganiadau blynyddol i unrhyw un o'r lleoedd canlynol:

- ein hen swyddfa yn Heol y Gadeirlan, ein swyddfa yn Abergele neu ein swyddfa ym Mhenllergaer.
- Unrhyw swyddfa awdurdod lleol

- • Eich cyn-archwilwyr BDO neu Grant Thornton gan fod yr holl archwiliadau bellach yn cael eu cynnal gan Archwilio Cymru

Gallwch hefyd gyflwyno'r Ffurflen Flynyddol a'r papurau ategol erbyn e-bost at **archwiliadcyngorcymunedol@archwilio.cymru**

Dylid anfon y ffurflen flynyddol a'r dogfennau ategol at yr archwilydd cyn gynted â phosibl ar ôl eu cymeradwyo. **Fodd bynnag, rhaid inni eu derbyn erbyn 8 Gorffennaf 2023 fan bellaf.** Bydd hyn yn ein galluogi i ddechrau gweithio yn yr wythnos sy'n dechrau 3 Gorffennaf.

Dylech gadw copi o'r ffurflen flynyddol i'w harchwilio gan y cyhoedd.

## Hysbysiad archwilio ac arolygiad cyhoeddus o gyfrifon

Rhaid ichi sicrhau bod y datganiad blynyddol a'ch cofnodion cyfrifyddu ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio ar hysbysiad rhesymol am 20 diwrnod gwaith cyn y dyddiad y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi pennu y caiff etholwyr arfer eu hawliau i ofyn cwestiynau neu i wneud gwrthwynebiadau ynghylch y cyfrifon. Mae'r hysbysiad archwilio yn nodi ein dyddiadau argymelledig ar gyfer y cyfnod arolygu, ar sail argaeledd o ddydd Llun i ddydd Gwener.

**Rhaid i chi arddangos yr hysbysiad archwilio amgaeedig (tudalen 6)** mewn man amlwg yn yr ardal. Argymhellwn y dylid gwneud hyn erbyn 18 Mehefin 2022. Rhaid arddangos yr hysbysiad hefyd ar wefan y cyngor. Dylid arddangos hysbysiadau cydbwyllgorau ar wefannau'r cynghorau sy'n aelodau ohonynt. Rhaid i'r hysbysiad barhau i gael ei arddangos am o leiaf 14 diwrnod (tan 2 Gorffennaf os caiff ei arddangos ar 18 Mehefin).

Mae'r dyddiadau perthnasol wedi eu hargraffu ar yr hysbysiad yn barod. Mae angen i chi fewnosod eich manylion cyswllt fel y nodir ar yr hysbysiad.

Dylai cynghorau nodi mai dim ond AR ÔL i'r cyngor gymeradwyo'r cyfrifon y gall y cyfnod archwilio ddechrau. Felly, os na fydd y cyngor yn cymeradwyo'r ffurflen flynyddol cyn y dyddiadau rhagargraffedig ar yr hysbysiad profforma yna bydd angen i chi newid y dyddiadau yn unol â hynny.

Gallwch hefyd ddefnyddio dyddiadau eraill os nad yw'r dyddiadau rhagargraffedig yn addas oherwydd bod clercod ar gael.

Os dymunwch neu os oes angen i chi ddefnyddio dyddiadau eraill ar gyfer y cyfnod arolygu, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y cyfnod arolygu yn bodloni gofynion y Rheoliadau.

Cewch arddangos yr hysbysiad am fwy na 14 diwrnod os ydych yn dymuno.

## Cyhoeddi cyfrifon

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned gyhoeddi eu datganiad blynyddol ynghyd â barn ac adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol erbyn 30 Medi. Rhaid cyhoeddi hwn mewn man amlwg ac ar wefannau cynghorau.

Os na fyddwch wedi cael y datganiad blynyddol archwiliedig yn ôl gennym erbyn 30 Medi, bydd angen ichi gyhoeddi'r ffurflen flynyddol a hysbysiad yn egluro nad yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi ei farn archwilio. Mae hysbysiad profforma wedi'i gynnwys yn Atodiad 3

## Ffioedd archwilio

Codir ffioedd archwilio yn unol â Chynllun Ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru sydd ar gael yn https://www.audit.wales/cy/amdanom-ni/graddfeydd-ffioedd-gosod-ffioedd.

## Annibyniaeth

Nid ydym yn gwybod am unrhyw wrthdaro buddiannau rhwng yr archwilydd a'r Cyngor, ei aelodau na'i staff. Byddwn yn rhoi gwybod i chi os byddwn yn dod yn ymwybodol o wrthdaro posibl. Dylech roi gwybod i ni os ydych yn gwybod am unrhyw wrthdaro buddiannau o'r fath.

## Cwynion

Os oes gennych unrhyw gwynion amdanom ni, cysylltwch â ni yn y cyfeiriad uchod, os gwelwch yn dda. Fel arall, cewch anfon e-bost i cwynion@archwilio.cymru.

## Atodiad 2 – Gwybodaeth sydd ei hangen ar gyfer archwiliad

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi nodi bod yn rhaid i BOB cyngor yng Nghymru ddarparu'r wybodaeth ganlynol ar gyfer yr archwiliad ar gyfer 2022-23. Mae'r wybodaeth yn ofynnol o dan adran 52 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Os na ddarperir gwybodaeth yn y lle cyntaf, bydd ffioedd archwilio ychwanegol yn cael eu codi ar y cyngor.

**Pob cyngor**

Dylech anfon y ffurflen flynyddol wreiddiol atom a'r wybodaeth a nodir yn y ddogfen atodedig 'Gofynion Gwybodaeth Archwilio Sylfaenol 2023'.

**Cynghorau yn destun archwiliad llawn bob tair blynedd**

Yn ogystal â'r wybodaeth a nodir yn 'Gofynion Gwybodaeth Archwilio Sylfaenol 2023', rhaid i gynghorau sy'n destun archwiliad llawn yn 2023 hefyd ddarparu'r wybodaeth a nodir yn y papur atodedig 'Cyfarwyddiadau archwilio llawn 2023'.

**Amserlen**

Mae'n bwysig bod gwybodaeth yn cael ei darparu'n amserol. Felly, dylai'r holl wybodaeth ofynnol gael ei darparu erbyn 8 Gorffennaf 2023. Lle mae cynghorau'n destun archwiliad llawn bob tair blynedd, mae 'Cyfarwyddiadau archwilio llawn 2023' yn esbonio sut y gallwch ddarparu'r wybodaeth hon i ni.

**Ceisiadau am wybodaeth ychwanegol yn ystod yr archwiliad**

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y wybodaeth a nodir uchod yn ddigon i ni allu cwblhau ein harchwiliad. Fodd bynnag, wrth wneud ein gwaith archwilio, mae'n bosibl y byddwn yn nodi esboniadau neu wybodaeth bellach nad ydynt wedi'u nodi yn yr hysbysiad archwilio hwn o'r atodiadau cysylltiedig, sy'n ofynnol i'n galluogi i gwblhau'r archwiliad. Mae hyn yn rhan arferol o'r broses archwilio wrth i ni nodi materion y mae angen eu hystyried. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw esboniadau neu wybodaeth bellach sydd eu hangen, yn ystod yr archwiliad.

## Atodiad 3 – Hysbysiadau Proforma ar gyfer cyfrifon hwyr

Efallai y bydd cynghorau'n dymuno defnyddio'r hysbysiadau canlynol os na allant gymeradwyo'r ffurflen flynyddol erbyn 30 Mehefin 2023 neu os nad ydynt wedi derbyn adroddiad a barn archwilio'r Archwilydd Cyffredinol erbyn 30 Medi. Dyliddiwygio neu ddileu gwaith printiedig mewn porffor fel y bo'n briodol.

Rhaid cyhoeddi hysbysiadau mewn lle amlwg yn y gymuned e.e. hysbysfwrdd ac ar wefan y cyngor.

**Example notice ar gyfer ardystio hwyr a chymeradwyo cyfrifon i'w cyhoeddi 30 Mehefin 2023**

**Ardystio a chymeradwyo cyfrifon blynyddol ar gyfer 2022-23**

Mae rheoliad 15(1) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Ariannol Cyfrifol [enw'r Cyngor] lofnodi a dyddio'r datganiad cyfrifon, ac ardystio ei fod [yn cyflwyno derbynebau a thaliadau [enw'r Cyngor yn briodol] am y flwyddyn] neu [mae'n cyflwyno sefyllfa ariannol [enw'r Cyngor] ar ddiwedd y flwyddyn ac incwm a gwariant y Cyngor am y flwyddyn] . Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i hyn gael ei gwblhau erbyn 30 Mehefin 202 3.

Oherwydd [mynnueglurhad byr], nidyw ef Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi llofnodi ac ardystio'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023. Bydd y datganiad cyfrifon yn cael ei baratoi a bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn llofnodi ac yn ardystio datganiad y cyfrifon erbyn [dyddiad mewnosod os yw'n bosibly gellir gwneud hynny].]

***NEU***

[Llofnododd ac ardystiodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol y cyfrifon ar [dyddiad].

Mae Rheoliad 15(2) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor, yn dilyn yr ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol y cyfeirir ato uchod, gymeradwyo'r cyfrifon. Mae'r Rheoliadau yn mynnu bod hyn wedi'i gwblhau erbyn 30 Mehefin 2023.

[Nid yw'r Cyngor wedi cymeradwyo'r cyfrifon eto oherwydd [mewnosod esboniad byr].

**Enghraifft o rybudd i'w gyhoeddi lle nad yw'r archwiliad wediei gwblhau erbyn 30 Medi 2023**

**Cyhoeddi cyfrifon archwiliedig ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023**

Mae Rheoliad 15(5) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnoli [enw’r Cyngor], erbyn 30 Medi 2023, gyhoeddi ei ddatganiadau cyfrifeg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 ynghyd ag unrhyw dystysgrif, barn, neu adroddiad a roddir,  a roddwyd neu a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r datganiadau cyfrifyddu, ar ffurf ffurflen flynyddol, wedi eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Fodd bynnag, nid yw'r Archwilydd G wedi cyhoeddi ei farn archwilio a'i rt repoeto ac felly cyhoeddir y cyfrifon cyn i'r archwiliad ddod i ben.  Cyhoeddir y ffurflen flynyddol ynghyd ag adroddiad a barn yr Archwilydd Cyffredinol panfydd yr archwiliad yn cael ei gwblhau.

# Atodiad 4 – Hysbysiad archwilio

Hysbysiad pennu'r dyddiad ar gyfer arfer hawliau etholwyr

**[CYNGOR CYMUNED LLANBEDR)**

Blwyddyn ariannol yn dod i ben ar 31 March 2023

1. Dyddiad cyhoeddi _________________8.6.23_____________________

2. Bob blwyddyn, archwilir y cyfrifon blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cyn y dyddiad hwn, mae unrhyw berson â diddordeb yn cael cyfle i archwilio a gwneud copïau o'r cyfrifon a'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau ac yn y blaen sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar rybudd rhesymol. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023, bydd y dogfennau hyn ar gael ar rybudd rhesymol ar gais i:

   ____________Mofudd Lloyd__________________________________________

   _________________Tyddyn Hendre,
   Llanbedr______________________________________

   ______cyngorllanbedr@gmail.com

   01341241645_________________________________________________

Rhwng yr oriau o _10.00_________ a ____2.00______ o ddydd Llun i ddydd Gwener

Yn dechrau ar 3 Gorffennaf 2022

Ac yn dod i ben ar 28 Gorffennaf 2022

3. O 11 Medi 2022, hyd nes y bydd yr archwiliad wedi ei gwblhau, mae gan Etholwyr Llywodraeth Leol a'u cynrychiolwyr hefyd:
   - yr hawl i holi'r Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â'r cyfrifon.
   - yr hawl i ddod gerbron yr Archwilydd Cyffredinol a mynegi gwrthwynebiad i'r cyfrifon neu unrhyw eitem ynddynt. Rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig o wrthwynebiad i'r Archwilydd Cyffredinol yn gyntaf. Rhaid rhoi copi o'r rhybudd ysgrifenedig hefyd i'r Cyngor.

Gellir cysylltu â'r Archwilydd Cyffredinol drwy: Archwiliadau Cynghorau Cymuned, Archwilio Cymru, 1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ neu drwy e-bost yn archwiliadcyngorcymunedol@archwilio.cymru.

4. Cynhelir yr archwiliad o dan ddarpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## Hawliau etholwyr o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

### Y sefyllfa sylfaenol

Drwy gyfraith, mae gan unrhyw berson â diddordeb yr hawl i archwilio cyfrifon y Cyngor. Os oes gennych hawl ac os ydych wedi cofrestru i bleidleisio yn etholiadau’r cyngor lleol, yna mae gennych chi (neu eich cynrychiolydd) yr hawl hefyd i ofyn cwestiynau amdanynt i’r Archwilydd Cyffredinol neu i herio eitem sydd wedi ei chynnwys yn y cyfrifon.

### Yr hawl i archwilio’r cyfrifon

Pan fydd corff llywodraeth leol wedi cwblhau ei gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, rhaid iddo hysbysebu eu bod ar gael i bobl edrych arnynt. Ar ôl rhoi rhybudd rhesymol o’ch bwriadau, bydd gennych wedyn 20 diwrnod gwaith i edrych drwy’r cyfrifon a’r dogfennau ategol. Cewch wneud copïau o’r cyfrifon a’r rhan fwyaf o’r dogfennau perthnasol gan y corff. Mae’n debyg y bydd yn rhaid i chi dalu tâl copïo.

### Yr hawl i ofyn cwestiynau i’r archwilydd ynglŷn â’r cyfrifon

Cwestiynau ynglŷn â’r cyfrifon yn unig y cewch eu gofyn i’r Archwilydd Cyffredinol. Nid oes rhaid i’r Archwilydd Cyffredinol ateb cwestiynau ynghylch polisïau, cyllid, gweithdrefnau’r corff na dim arall nad yw’n gysylltiedig â’r cyfrifon. Rhaid i’ch cwestiwn ymwneud â’r cyfrifon sy’n destun yr archwiliad. Nid oes rhaid i’r Archwilydd Cyffredinol ddweud a yw’n credu bod rhywbeth y mae’r cyngor wedi’i wneud, neu eitem yn ei gyfrifon, yn gyfreithlon neu’n rhesymol.

### Yr hawl i fynegi gwrthwynebiad i’r cyfrifon

Os ydych chi'n credu bod y corff wedi gwario arian na ddylai ei gael, neu fod rhywun wedi achosi colled i'r corff yn fwriadol neu drwy ymddwyn yn anghyfrifol, gallwch wrthwynebu'r Archwilydd Cyffredinol drwy anfon 'hysbysiad o wrthwynebiad' ffurfiol, y **mae'n rhaid iddo fod yn ysgrifenedig** i'r cyfeiriad isod. Gallwch ofyn i'r Archwilydd Cyffredinol wneud cais i'r llysoedd am ddatganiad bod eitemau o'r fath yn anghyfreithlon. Rhaid i chi ddweud wrth yr Archwilydd Cyffredinol pam eich bod yn gwrthwynebu. Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddod i benderfyniad ar eich gwrthwynebiad. Os nad ydych yn hapus gyda'r penderfyniad hwnnw, gallwch apelio i'r llysoedd. Rhaid i chi hefyd anfon copi o'ch hysbysiad at y cyngor ei hun.

Cewch wrthwynebu hefyd os byddwch yn meddwl bod rhywbeth yn y cyfrifon y dylai'r Archwilydd Cyffredinol ei drafod gyda'r Cyngor neu ddweud wrth y cyhoedd amdano mewn 'adroddiad buddiant cyhoeddus'. Unwaith eto, rhaid i chi roi eich rhesymau yn ysgrifenedig i'r Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad isod. Yn y sefyllfa honno, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol benderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau. Fel arfer, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi rhesymau dros ei benderfyniad, ond nid oes rhaid iddo wneud hynny ac ni chewch apelio i'r llys. Ni chewch ddefnyddio'r 'hawl i wrthwynebu' hon i wneud cwyn bersonol neu hawliad yn erbyn y corff.

Os byddwch yn dymuno gwneud cwyn neu hawliad personol, dylech fynd â'r cwynion hyn i'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth leol, Canolfan y Gyfraith leol, neu eich cyfreithiwr. Efallai y cewch hefyd gwyno wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru os byddwch yn credu bod Aelod o'r corff wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau. Gellir cysylltu â'r Ombwdsmon yn: 1 Heol yr Hen Gae, Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr CF35 5LJ, (ffôn: (01656) 641 150).

## Beth arall y gellwch ei wneud

Yn hytrach na gwrthwynebu, gellwch roi gwybodaeth i'r Archwilydd Cyffredinol sy'n berthnasol i'w gyfrifoldebau. Er enghraifft, gellwch sôn wrth yr Archwilydd Cyffredinol os byddwch yn meddwl bod rhywbeth o'i le ar y cyfrifon neu am wastraff ac aneffeithlonrwydd yn y ffordd y mae'r Cyngor yn rhedeg ei wasanaethau. Nid oes rhaid i chi ddilyn unrhyw derfynau amser na gweithdrefnau penodol. Nid oes rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol roi adroddiad manwl i chi o ganlyniad ei archwiliad.

## Gair terfynol

Rhaid i gyrff llywodraeth leol, ac felly trethdalwyr lleol, dalu costau delio â chwestiynau a gwrthwynebiadau. Pan fydd yr Archwilydd Cyffredinol yn penderfynu a ddylid mynd â'ch gwrthwynebiad ymhellach, mae un o gyfres o ffactorau y mae'n rhaid iddo eu hystyried yn cynnwys y costau a fydd yn gysylltiedig. Bydd ond yn parhau gyda'r gwrthwynebiad os yw er budd y cyhoedd i wneud hynny. Os byddwch yn apelio i'r llysoedd, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am y camau gweithredu eich hun.

Os byddwch yn dymuno cysylltu â'r Archwilydd Cyffredinol, ysgrifennwch at: Archwiliadau Cynghorau Cymuned, Archwilio Cymru, 1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ.